

Y TYST

Sefydlwyd 1867

Cyfrol 156

Rhif 19

Mai 11, 2023

50c.

Cyfundeb Dwyrain Morgannwg: Cwrdd Chwarter y Gwanwyn

Mynychodd aelodau naw o eglwysi'r Cyfundeb Gwrdd Chwarter cyntaf 2023 dan gadeiryddiaeth Dr Hefin Jones yn yr Eglwys Newydd, Caerdydd nos Fercher 22 Mawrth. Gwenda Lewis ac Arfon Jones o eglwys Ebeneser, Caerdydd oedd yng ngofal y defosiwn agoriadol ac offrymwyd y weddi goffa gan y Parchedig Owain Llŷr. Wedi i'r cadeirydd ddiolch i eglwys Ebeneser am y defosiwn ac am y lluniaeth a baratowyd, aed ymlaen i drafod materion busnes y Cyfundeb; cyn gwneud hynny, fodd bynnag, manteisiwyd ar y cyfle i ddiolch i'r gweithgor fu yng ngofal trefniadau CyFUNdeb, sef Sul y Cyfundeb arbrofol a hynod lwyddiannus a gynhaliwyd yn gynharach yn y mis.

Adroddiad yr ysgrifennydd

Cyflwynodd yr ysgrifennydd adroddiad o'r prif faterion a drafodwyd yng nghyfarfod y pwyllgor gwaith ym mis Chwefror, gan gynnwys rhaglen y Cyfundeb am y flwyddyn, ac argymhellion panel y Gronfa Nawdd ar geisiadau am nawdd a dderbyniwyd oddi wrth dair o'r eglwysi. Rhoddodd adroddiad hefyd o'r sefyllfa ariannol, diweddariad o ymgeisyddiaeth Sian Meinir i gael ei chynabod fel gweinidog cynorthwyol i'r Undeb, ac adroddiad ar yr ymgyrch Eglwysi Dementia-gyfeillgar. Eitem olaf yr adroddiad oedd cyflwyno argymhelliad y pwyllgor gwaith i enwebu'r Parchedig Owain Llŷr Evans fel Darpar Lywydd yr Undeb. Derbyniwyd yr adroddiad yn unfrydol, ynghyd â'r argymhelliad i gefnogi enwebiad Owain Llŷr fel Darpar Lywydd.

Y Gymraeg a Chyfrifiad 2021

Neilltuwyd gweddill y Cwrdd Chwarter i dderbyn dau gyflwyniad ar ganlyniadau Cyfrifiad 2021, y naill ar sefyllfa'r iaith Gymraeg a'r llall ar ganlyniadau crefydd y Cymry. Cyflwynodd Manon Wynn Davies, Ymchwilydd y Comisiynydd Iaith, brif ganlyniadau'r cyfrifiad ar y Gymraeg. Wrth gydnabod y teimlad o siom bod lleihad pellach yn nifer a chanran y siaradwyr ar draws Cymru ers cyfrifiad 2011, ymateb y Comisiynydd Iaith yw nad oes angen anobeithio'n llwyr ynghylch y dyfodol. Eisoes mae nifer dda o ddatblygiadau gwyach ar droed sy'n cynnig amodau ffafriol i hyrwyddo'r iaith, ond nid ydynt yn ddigonol ynddynt eu hunain; oherwydd hynny mae'n bwysig defnyddio'r canlyniadau fel ysgogiad i annog mwy o ymdrech i gefnogi'r iaith. Bydd cyflwyno mesur addysg Gymraeg hefyd yn sicr o roi hwb pellach i'r ymdrechion hyn. Dangosodd nad oedd pob rhan o Gymru wedi profi cwymp yn nifer y siaradwyr Cymraeg gan fod pocedi lleol yng Nghaerdydd, er enghraifft, wedi gweld cynnydd calonogol iawn dros y ddeng mlynedd ddiwethaf.



Tranc Cristnogaeth?

Pan ddaeth canlyniadau cychwynnol cyflwr crefydd a ffydd y Cymry yng Nghyfrifiad 2021 i olau dydd, fe arweiniodd at gyfres o benawdau'n proffwydo tranc ein hetifeddiaeth Gristnogol. Yr hyn a barodd gryn sioc i lawer oedd deall mai yng Nghymru'n unig, o blith gwledydd y Deyrnas Gyfunol, mae canran uwch o'r boblogaeth bellach yn eu disgrifio'u hunain fel personau digrefydd, a bod gostyngiad o 14% dros ddeng mlynedd ymhlith y rhai oedd yn eu hystyried eu hunain yn Gristnogion. Dadlennol, felly, oedd gwrandao ar ddehongliad treiddgar Gethin Rhys, Swyddog Polisi Cytûn, o arwyddocâd data'r cyfrifiad. Ar ôl iddo gnoi cil dros yr ystadegau cyfaddefodd



nad oedd y ffigurau hyn wedi ei synnu o gwbl, gan fod y niferoedd yng nghyfrifiad 2011 yn afrealistig o uchel tra bod yr atebion yn 2021 yn llawer mwy gonest.

Theos

Yn ail hanner ei gyflwyniad canolbwyntiodd ar ganfyddiadau gwaith ymchwil pellach a gynhaliwyd yn sgil y cyfrifiad gan y felin drafod Theos a holodd beth a olygai'r atebwyr wrth eu disgrifio'u hunain fel personau digrefydd. Prif gasgliad Theos oedd bod tair prif garfan, gyda phob un yn cynrychioli tua thraean o'r sampl a ddefnyddiwyd ganddynt, sef:

- A. Rhai sy'n anffyddwyr rhonc ac yn elyniaethus i greffydd;
- B. Rhai nad ydynt yn gredinwyr eu hunain ond yn gweld eglwysi a chapeli'n gwneud gwaith da o fewn y gymuned;
- C. Rhai sy'n dweud eu bod nhw'n credu ond ddim yn arddel perthynas gyda chrefydd gyfundrefnol.

Gan fod dwy ran o dair o'r rhai 'digrefydd' hyn yn perthyn naill ai i garfan B neu C, teimla Gethin Rhys nad yw canlyniadau'r cyfrifiad mor anobeithiol ag y maent yn ymddangos ar yr olwg gyntaf.

Cnoi cil pellach

Casgliad y ddau siaradwr fel ei gilydd, felly, oedd fod llawer o waith i'w wneud eto i gryfhau'r iaith a'r ffydd Gristnogol yng Nghymru, ond nad yw'r sefyllfa mor ddigalon â'r hyn a awgrymir wrth edrych ar yr ystadegau moel yn unig. Tynnodd y ddau sylw hefyd at y ffaith nad yw holl ganlyniadau'r cyfrifiad wedi eu cyhoeddi eto ac felly does dim modd croesgyfeirio, er enghraifft, rhwng ystadegau'r iaith a chrefydd. Bydd yn ddiddorol cael gwybod a yw'r Cymry Cymraeg yn debycach o fod yn fwy crefyddol na'r Cymry di-Gymraeg. Roedd pawb yn gytûn ein bod wedi derbyn cyfraniadau diddorol a gwerthfawr, fydd yn sbardun dros ymateb yn fwy cadarnhaol i'r ddau gyfrifiad.

**Gwilym Huws,
Ysgrifennydd Cyfundeb Dwyrain
Morgannwg**

THOMAS ROWLANDS, MADAGASCAR 1852 – 1921

Dyma ail ran yr erthygl ar y gwron hwn gan y Parchg Geoffrey Eynon.

Wrth i amser symud ymlaen, gwnaeth Thomas Rowlands nifer o deithiau arloesol ymhlith y llwythau anghysbell. Yn 1893 symudodd y Parchg a Mrs Rowlands i Fianarantsoa, cyn dychwelyd i Ambohimandroso ym 1895, sef y flwyddyn ymosododd Ffrainc ar y wlad. Ym 1913, dychwelodd Thomas ac Elizabeth Rowlands i Brydain, wedi 36 o flynyddoedd o wasanaeth. Penderfynwyd oherwydd afiechyd i beidio dychwelyd i Fadagascar, ac ym Mehefin 1915 ymddiswyddodd ac ymddeol i fyw yn y Drenewydd, Sir Drefaldwyn. Cafodd Thomas Rowlands ei benodi'n ddiagon yn y capel Cymraeg, ai wraig Elizabeth yn ddiacones yn yr eglwys Saesneg.

Dychwelyd

Ond, oherwydd anawsterau ar y maes cenhadol, a'r Rhyfel Byd gyntaf yn ei anterth, gofynnodd swyddogion yr LMS i Mr a Mrs Rowlands i fynd yn ôl i Fadagascar am gyfnod byr 'yn lle'r rhai ifanc oedd wedi gorfod mynd i ryfel.' Felly ar 14 Hydref 1916, gadawodd Gymru a chyrraedd yn Tananarive ar 7 Rhagfyr. Bu farw Elizabeth Rowlands ar 21 Ragfyr. Ailddechreuodd Thomas Rowlands ar ei siwrnai i Ambohimandroso i barhau â'i waith, hyd nes iddo farw ar 5 Mai 1921.

Oedfa arbennig

Ym 1920 anfonwyd cynrychiolwyr allan i Fadagascar o Brydain i gymryd rhan mewn cyfarfodydd arbennig. Roedd y cyfarfodydd hyn yn uchafbwynt ym mywyd a gwasanaeth hir y Parchg Thomas Rowlands yn Ambohimandroso. Ym mhlith y cynrychiolwyr roedd y Parchedigion Elvet Lewis, Robert Griffith a Mr F. H. Hawkins LL.B., Ysgrifennydd Tramor, y Gymdeithas Genhadol Llundain. Ar 29 Hydref 1920, roedd tua 700 o bobol yn bresennol mewn oedfa, yn cynrychioli nifer fawr o eglwysi. Llauer ohonynt wedi cerdded taith diwrnod er mwyn bod yn bresennol. Mae'n addas mai llywydd y cyfarfod oedd y Parchg Thomas Rowlands, a'r siaradwr gwadd oedd y Parchg Elvet Lewis. Treuliwyd gweddill



yr amser byr oedd gan y cynrychiolwyr ym Madagascar i fynd o amgylch yr ardaloedd i weld ac i glywed am waith y Parchg Rowlands.

Wedi'r dathliadau, parhaodd y Parchg Thomas Rowlands â'i waith am gyfnod eto, gyda'r bwriad i ddychwelyd i Gymru ym mis Ebrill 1921. Ar 28 Ebrill pregethodd yn y gynhadledd flynyddol ar y thema 'Meddyginiaethau i Ddigalondid', gan ddewis ei destun o Eiseia 49 adnod 4. Gan gredu mai dyma'i gynhadledd olaf, dywedodd 'Ffarwél' wrthynt gan ddisgwyl y byddai'n gadael Madagascar am y tro olaf.

Pen talar

Ychydig o ddyddiau yn ddiweddarach, ac am y tro olaf gwasanaethodd mewn oedfa gymun, ac ar ddydd Iau, 5 Mai 1921, sef Y Dyrchafael, bu farw'r Parchg Thomas Rowlands. Roedd wedi ymddiried yn y Parchg Elvet Lewis, pe byddai wedi dychwelyd i Gymru, ei ddmuniad oedd cael ei gladdu ym Madagascar. Felly, nid yng Nghymru fach, ble byddai'r genhinen Pedr a'r briallu yn tyfu ar hyd lonydd tawel Trefgarn Owen, y claddwyd Thomas Rowlands, ond yn nhir y wlad wedi oes o lafur diwyd a llwyddiannus dros yr Efengyl ym Madagascar. Yn Ambohimandroso, cymerwyd rhan yn y gwasanaeth angladdol gan genhadon o Fianarantosa, ynghyd ag arweinwyr o'r ardaloedd cyfagos.

Diolch a gwerthfawrogiad

Cynhaliwyd oedfa goffa iddo yn y Drenewydd, gyda llawer o'i deulu a ffrindiau yn bresennol, ac mae'n addas fod ei hen gyfeillion Parchg a Mrs D. M. Rees yno i sôn am eu profiadau personol am waith Thomas Rowlands ymhlith brodorion Madagascar. Wrth gofio am Thomas Rowlands, mae'n amhosib anghofio am ei gyfraniad amhrisiadwy ym Madagascar. Bu'n cyfieithu rhannau o'r ysgrythur i'r Falagaseg; cyfrannu i nifer o esboniadau Beiblaidd; ysgrifennu a chyfieithu emynau; esboniad 'Taith y Pererin'; sefydlodd hostel i ferched, ac fe all y rhestr mynd ymlaen.

Yng ngeiriau'r Parchg Elvet Lewis: 'Nid yw Thomas Rowlands wedi marw, ond mae'n fyw ym mywydau'r miloedd roedd wedi dylanwadu arnynt, ac fe wyddai am lawenydd yr Arglwydd. Da was.'

Dydd Iau Dyrchafael

Mae dydd Iau Dyrchafael neu Difiau Dyrchafael yn ŵyl eciwmenaidd Gristnogol sy'n cael ei dathlu union 40 diwrnod yn dilyn Sul y Pasg, ac ar ddydd Iau bob amser yn y chweched wythnos wedi'r Pasg. Fe'i dethlir gan y rhan fwyaf o eglwysi Cristnogol ar y dydd hwn. (dydd Iau 18 Mai, 2023) Mae'r Eglwys Gatholig yng Nghymru a Lloegr fel arfer, yn dathlu ar y dydd Sul canlynol. Yng ngwledydd Sgandinafia, yr Iseldiroedd a'r Almaen, mae'r plant ysgol yn cael diwrnod o wyliau ar ddydd Iau Dyrchafael

Gŵyl bwysig

Dyw dydd Iau Dyrchafael ddim bob amser yn derbyn yr un sylw ag achlysuron cofio geni, marw ac atgyfodi Iesu. Mae'n ŵyl bwysig ac arwyddocaol, serch hynny, sy'n coffáu Iesu'n gadael y byd hwn a'i ddisgyblion – ond yn gwneud hynny fel Arglwydd a Gwardwr byw. Caiff yr hanes ei adrodd ar ddiwedd Efengyl Luc a dechrau Llyfr yr Actau. Cyn i Iesu ddyrchafu, rhoddodd gyfarwyddiadau arbennig i'w ddisgyblion. Meddai yn Efengyl Mathew 28: 19-20:

'Ewch, gan hynny, a gwnewch ddisgyblion o'r holl genhedloedd, gan eu bedyddio hwy yn enw'r Tad a'r Mab a'r Ysbryd Glân, a dysgu iddynt gadw'r holl orchmynion a roddais i chi. Ac yn awr, yr wyf gyda chi yn wastad hyd ddiwedd amser.'

Mae Iesu yn rhoi gorchymyn i'w ddisgyblion ledaenu neges yr Efengyl ac yn addo ei bresenoldeb parhaol neu rodd yr Ysbryd i'w harfogi â nerth. Testun llawenydd i'w ddisgyblion ac i bob un ohonon ni heddiw yw gwybod na fydd Iesu byth yn ein gadael. Mae'n fyw a phob amser ar gael.

Difiau

'Difiau Dyrchafael' yw un o gerddi mawr Saunders Lewis. Nid unrhyw fore Mai sydd dan sylw ganddo yn y gerdd ond y diwrnod a benododd yr

parhad ar dudalen 6

Yr Adran Gydenwadol

Wythnos Cymorth Cristnogol, 14–20 Mai 2023



Mae'r cynnydd mewn prisiau yn effeithio ar bobl yma yng Nghymru ac ar draws y byd.

Ac mae ffermwyr ym Malawi yn talu'r pris am yr argyfwng byd-eang hwn. Fe fu i brisiau bwyd, tanwydd a ffioedd ysgol ddyblu yno dros y 12 mis diwethaf. Ar ben hynny mae ffermwyr sy'n gweithio'n galed yn gweld eu cynydau'n methu wrth i'r argyfwng hinsawdd ddod â thywydd mwyfwy cyfnewidiol yn ei sgil.

Bob blwyddyn, yn ystod Wythnos Cymorth Cristnogol, rydyn ni, bobl y Deyrnas Unedig, yn camu allan mewn cariad gyda'n cymdogion byd-eang i ddathlu ein bod yn benderfynol o newid y byd, drwy ein rhoddion, ein gweddïau a'n gweithredoedd.

Eleni, yn ystod Wythnos Cymorth Cristnogol (14–20 Mai), byddwn yn sefyll gydag Esther a Jen a'u teuluoedd ym Malawi – merched penderfynol iawn sydd am i'w plant wireddu eu breuddwydion. Merched cryf a gobeithiol sy'n barod i weithio dros newid mawr ydyn nhw.

Gall eich rhoddion yn ystod Wythnos Cymorth Cristnogol eleni helpu ffermwyr ym Malawi i blannu hadau gwell, sicrhau pris tecach am eu cynhaeaf ac adeiladu dyfodol hapusach ar gyfer eu plant.

Gallwch wyllo'r fideo yma i gael blas ar y gwaith ym Malawi:

[Christian Aid Week 2023 - Bread Ad](#)



Eleni eto, rydym yn ddiolchgar i Gymorth Cristnogol am baratoi deunyddiau ac adnoddau i'w defnyddio mewn gwasanaeth yn ystod yr wythnos. Gallwch archebu copïau o'r adnoddau gan gynnwys amlenni a phosteri ar lein: [Christian Aid Week Resources - Christian Aid](#) neu fynd ati i'w lawrlwytho yma: [Christian Aid Week 2023 - Worship - Christian Aid](#)

Galwad i addoli

(yn seiliedig ar Salm 47)

Curwch eich dwylo, yr holl bobloedd.

Gwaeddwch yn llawen wrth addoli Duw.

Mae Duw wedi esgyn gyda gwaedd.

Canwch fawl i'r Duw goruchaf.

Duw sy'n teyrnasu dros yr holl ddaear.

Addolwn Dduw gyda'n holl galon.

Gweddï wrth ddynesu

Dduw'r creawdwr,

rwyt wedi plannu hedyn cariad yn ein calon,

yn ein henaid, yn ein bywyd.

Rydym yn dyheu am lewyrch dy bresenoldeb i'n tynnu'n agosach

atat ti ac at ein gilydd,

wrth inni uno gyda'th bobl ar bob adeg ym mhob man i addoli a gwasanaethu.

Cyffeswn yr adegau aml hynny pan fuom yn dir caregog,

yn rhy galed i werthfawrogi hedyn bach,

fel gwên hael, a gair twymgalon.

[Merched] Rwyt yn ein meithrin fel cymuned.

[Dynion] Rwyt yn ein meithrin fel cymuned.

[Pawb] Rwyt yn ein meithrin fel cymuned.

Cyffeswn yr adegau aml hynny pan fuom yn dir caregog,

yn rhy galed inni weld y tu hwnt i'n dyheadau hunanol

ac am inni dderbyn yn rhwydd fyd sy'n mygu breuddwydion

y rhai sydd â llai o rym a chyfoeth.

Greawdwr Dduw,

unwaith eto, rwyt wedi plannu hedyn cariad yn ein calon,

yn ein henaid, yn ein bywyd.

Deuwn yn agos heddiw gan wybod bod maddeuant

yn dyfrhau'r had ac yn ein meithrin gyda grym dy Ysbryd i dyfu,

i ffynnu ac i ddwyn ffrwyth dy gyfiawnder nawr ac am byth.

Amen.

Eiriolaethau

Dyweddodd Esther Saizi wrth

Gymorth Cristnogol: 'Pan fu

farw fy ngŵr y llynedd, roedd yn

adeg anodd. Torrodd fy nghalon.

Yn y diwedd, wrth imi benlinio

a gweddïo ar Dduw, roeddwn

yn gwybod ei fod gydag ef a

bod rhaid imi symud ymlaen.

Penliniais a gweddïo y byddai

Duw yn fy helpu.' Gan lawenhau

yn yr ateb i weddi Esther ac yn

hyderus yng ngrym gweddï i newid y byd, gweddïwn gyda'n gilydd.

Offrymwn weddi o eiriolaeth dros bobl o amgylch y byd sy'n dioddef

tlodi ac anghyfiawnder gan gofio'r pwyntiau hyn:

- Her chwyddiant uchel sy'n ei gwneud hi'n anodd i bobl fforddio angenrheidiau pob dydd
- Pobl sy wedi eu heffeithio gan drychinebau naturiol, fel sychder, newyn a llifogydd
- Effaith yr argyfwng hinsawdd, yn enwedig pan fo'n difetha cynydau angenrheidiol
- Esther Saizi a merched tebyg iddi sy'n dod â'u cymunedau at ei gilydd
- Ffermwyr sy'n cyflenwi bwyd angenrheidiol i'w cymunedau
- Cwmni cydweithredol sy'n rhoi mwy o rym i bobl dros eu bywyd eu hunain
- Diwedd i ecsbloetio economaidd gan fusnesau mawr.



Cynhadledd eglwysig ryngwladol arall?

Cynhadledd Ewrop CWM, y Cyngor Cenhadol Byd-eang, yn Amsterdam

E-bost oedd e, gan Nan Wyn Powell-Davies, Ysgrifennydd Cyffredinol Eglwys Bresbyteraidd Cymru, a hynny ddechrau Mawrth, yn holi tybed a fyddwn yn fodlon bod yn un o gynrychiolwyr yr eglwys mewn cynhadledd yn Amsterdam. 'Cynhadledd eglwysig, ryngwladol arall?' meddwn innau wrthyf fy hun, gan gofio'r profiadau da yng Nghyngor Eglwysi'r Byd ddiwedd haf diwethaf. A dyma gytuno yn unionsyth i fynd i gynhadledd Ewrop CWM, y Cyngor Cenhadol Byd-eang, ddiwedd Ebrill – tridiau yn trafod gwaith CWM ac yn ymweld â phrosiectau yn y ddinas.

Roedd yna gwmni difyr o Gymru: Nan Wyn ac Anna Jane Evans o blith y Presbyteriaid, a Jill Hailey-Harries, Beti-Wyn James a Dyfrig Rees o Undeb yr Annibynwyr. Roedd dechrau amgyffred lled gwaith CWM yn beth amheuthun. Deuthum i sylweddoli eu bod yn pwysleisio neges gyflawn Crist, yn cynnwys profiadau personol, profiadau cymunedol, cymdeithasol, gwleidyddol a llawer mwy – mae eu cenhadaeth yn cynnwys y cyfan. Adroddodd yr aelodau

hanes eu prosiectau gwahanol, a bu trafod ar lwyddiannau, anawsterau a rhwystredigaethau yn y gwaith.

Ond er mor ddifyr y trafod roedd yr ymweliad â phrosiect yn Amsterdam yn llawer iawn mwy buddiol. Ymweld ag eglwys newydd, arloesol oeddem ni, sef eglwys yn Betondorp. Ardal gymharol ddifreintiedig yw Betondorp a phrin fod unrhyw gysylltiad rhwng yr eglwys a'r ardal cyn i Margietha Reinders, y gweinidog, ddechrau gweithio yno. Nid eglwys gyffredin mo hon, ond un sydd yn gweithredu yn gymdeithasol ac yn cynnig cymorth i bobl, beth bynnag fo'u hangen. Nid oes ganddynt adeilad fel y cyfryw, dim ond cyfarfod yn unrhyw adeilad oedd ar gael iddynt. Fe fuom ni'n trafod yr eglwys gyda Margietha yn y dafarn, er enghraifft.

Roedd hi'n disgrifio'r eglwys fel un sydd yn cyffwrdd â bywyd bob dydd pobl, yn trafod eu problemau, yn trafod eu gobeithion, ac yn gosod hynny yng nghyd-destun cariad Duw a'r posibilïadau y mae'r cariad hwnnw yn ei agor. Cofiwch, ar un ystyr roedd yn braf ei chlywed yn trafod problemau digon tebyg i eglwysi yng Nghymru hefyd.



Cynrychiolwyr o Gymru yng Nghynhadledd CWM – o'r chwith i'r dde: Beti-Wyn James, Anna Jane Evans, Nan Wyn Powell-Davies, Jill Hailey-Harries, Dyfrig Rees a Gwen Down

Roedd cyfle i grwydro yn ogystal, ac fel grŵp cawsom ein tywys ar hyd Taith Etifeddiaeth Ddu yn y ddinas, hyn i gyd-fynd â'r trafod a fu ar ganlyniadau caethwasiaeth. Roedd yr Iseldiroedd, fel y Deyrnas Unedig, yn ganolfan masnachu caethweision, a'r amgueddfa yn tystio i hynny. Rhaid i ni gofio ein hanes a sicrhau nad ydym yn dyrchafu pobl oedd yn ymelwa ar y fasnach ofnadwy yma.

Cynhadledd bur wahanol i Gyngor Eglwysi'r Byd oedd hon yn Amsterdam, ond un oedd yn agoriad llygaid ac yn brofiad gwerthfawr dros ben.

Gwen Down

(Cyhoeddwyd gyntaf yn Perthyn:
Cylchgrawn Capel y Morfa
ac Ebeneser Penparcau, Mai 2023)

Gair y Dydd – gair o werthfawrogiad

Mewn oes sy'n cymryd cymaint o bethau'n ganiataol, onid hyfryd yw derbyn gair o ddiolch neu werthfawrogiad? Diolch yn fawr felly i Miss Eurwen Richards, Pen-y-bont ar Ogwr, am anfon y nodyn yma at bwyllgor *Gair y Dydd* yn ddiweddar:

Pennawd y myfyrdod yn *Gair y Dydd* ryw bythefnos yn ôl oedd 'gwnewch'. Penderfynais ar y pryd taw dyna oedd 'job y dydd', ond nawr mae'n cael ei gyflawni ... Roeddwn am anfon gair o ddiolch i chi a'r pwyllgor. Rwyf wedi cael bendith mawr o'r pytau myfyrdod. Gwn pa mor anodd yw hi i gael rhywbeth addas a *fresh*, ac mae'r misoedd olaf hyn, yn fy nhyb i, wedi bod yn arbennig ... Diolch i'r awduron, ond gwn nad oes dim yn digwydd heb gefnogaeth tu

cefn. A dyna rwy'n teimlo rydych chi a'r pwyllgor yn ei wneud.

Fel y gŵyr y rhelyw ohonoch, dwi'n siŵr, llyfryn o fyfyrddau defosiynol dyddiol yw *Gair y Dydd*, ac fe gaiff ei gyhoeddi gan banel cydenwadol bob tri mis (ers 1962!). Dyma'r unig gyhoeddiad o'r fath yn y Gymraeg. Gan mai awduron gwahanol sy'n gyfrifol am y myfyrdodau misol, ceir amrywiaeth eang o destunau a phrofiadau. Awduron y rhifyn cyfredol yw'r Parchg Emyr Gwyn Evans, y Parchg Dyfed Wyn Roberts a'r Dr Arfon Jones. Mae pob defosiwn dyddiol yn cynnwys darlleniad(au) Beiblaidd, myfyrdod a gweddi fer.

Mae modd tanysgrifio i dderbyn y llyfryn am flwyddyn am £10 trwy law ein trysorydd, Mr



David Glyn Williams: davidglynwilliams01@gmail.com.

Eirian Dafydd
(ar ran y pwyllgor)

Pabell yr Eglwysi yn Eisteddfod yr Urdd

Eleni cynhelir Eisteddfod yr Urdd rhwng 28 Mai a 3 Mehefin, a hynny yn Llanymddyfri yn sir Gaerfyrddin. Yn ôl yr arfer, fe fydd pabell yno yn enw'r enwadau, a hynny o dan nawdd Cytûn a'r Cyngor Ysgolion Sul.

Byddwn hefyd yn cydweithio â Chymdeithas y Beibl a Chymorth Cristnogol er mwyn cynnig ystod eang o weithgareddau. Bydd chwe ardal weithgaredd o fewn y stondin, gyda chreffft Arch Noa, Lego, Cnex, Jenga,

cornel stori, cyfle i wneud bathodyn, yn ogystal â chyfle i gyfrannu at broiect Cymorth Cristnogol drwy greu murlun. Bydd diodydd a fferins ar gael am ddim yn ystod y dydd, ac arddangosfa o waith llaw gan rai o ysgolion Sul yr ardal.

Bydd gan y Cyngor Ysgolion Sul ddewis helaeth o adnoddau ar werth hefyd, gan gynnwys llyfrau gwasanaeth, Beiblau i bob oed a dewis da o werslyfrau ysgol Sul.

Cofiwch hefyd am yr oedfa fore Sul, 28 Mai, fydd yn cael ei chynnal yng Nghanolfan Hamdden y dre. Mae hon yn oedfa o dan arweiniad plant ac ieuencid ysgolion Sul y sir, ac mae croeso i bawb ymuno.

Efallai hefyd y medrwch chi fanteisio ar y cyfle, tra byddwch yn yr ardal, i fynd i chwilio am y cerflun newydd a gafodd ei ddadorchuddio'n ddiweddar i goffáu William Williams, Pantycelyn. Mae'r cerflun i'w weld yng nghanol tref Llanymddyfri.

Cysylltwch ag Aled Davies: aled@ysgolsul.com am ragor o wybodaeth.

ADNABOD

Cymeriadau'r Hen Destament

ABRAHAM

Cyfres o astudiaethau gan y Parch. Meirion Morris ar gyfer grŵp neu unigolion; gellir eu defnyddio ochr yn ochr â'r gyfrol *Dehongli Bywyd Abraham* gan Gareth Lloyd Jones.

23 Pen-blwydd Eglwys yr Hen Destament

Darllen: Genesis 17: 9–11, 23–7

(Gweler hefyd *Dehongli Bywyd Abraham*, gan Gareth Lloyd Jones, t. 99 ac ymlaen)

Yn ei esboniad ar yr adnodau hyn fe ddywed Derek Kidner, 'Yn yr ystyr fod y Pentecost yn ddydd pen-blwydd yr Eglwys, dyma ddydd pen-blwydd yr Eglwys yn yr Hen Destament'. Mae hyn yn ddeud annisgwyl braidd, er wrth feddwl am le canolog yr arwydd yma o bobl y cyfamod yn y Beibl, mae'n hawdd deall y geiriau. Yn wir, mi fyddwch yn cofio bod trafodaeth am enwaediad wedi bod yn un o'r pynciau mwyaf yn ystod cyfnod yr Apostolion. Pam felly?

Rydym eisoes wedi edrych ar sawl agwedd o gyfamod yn hanes Abraham a lle canolog y syniad o gyfamod yn y Beibl. Yn awr, mae Abraham yn derbyn gorchymyn i ddefnyddio arwydd er mwyn ei atgoffa ef ac er mwyn cyhoeddi i'r byd addewid grasol Duw yn ei gyfamod â phobl: 'Sefydla fy nghyfamod yn gyfamod tragwyddol â thi, ac â'th ddisgynyddion ar dy ôl dros eu cenedlaethau, i fod yn Dduw i ti ac i'th ddisgynyddion ar dy ôl' (adn. 7). Fel arwydd o hyn mae Abraham i gymryd arwydd enwaediad, ac felly hefyd ei ddisgynyddion. O ran yr arwydd, mae yna arwyddocâd arbennig i'r ffaith ei fod yn gorchymyn torri oherwydd, fel y bu inni ddarganfod ynghynt wrth edrych ar bennod 15, roedd cyfamod bob amser yn rhywbeth oedd yn cael ei dorri – 'cut a covenant'.

Yn ychwanegol at hyn, mae'r gorchymyn yn ddeublyg; hynny yw, yr oedd yn orchymyn i Abraham, ond hefyd i'w blant a'i deulu estynedig. Rydym yn gwybod am Abraham ei fod yn arwydd o ffydd oedd eisoes wedi ei hamlygu. Wrth ystyried y gwynfyd o adnabod maddeuant, mae Paul yn nodi:

'Y gwynfyd hwn, ai braint yn dilyn ar enwaediad yw? Oni cheir ef heb enwaediad hefyd? Ceir yn wir, oherwydd ein hymadrodd yw, 'cyfrifwyd ei ffydd i Abraham yn gyfiawnder'. Ond sut y bu'r cyfrif? Ai ar ôl enwaedu arno, ynteu cyn hynny? Cyn yr enwaedu, nid ar ei ôl. Ac wedyn derbyniodd arwydd yr enwaediad,

yn sêl o'r cyfiawnder oedd eisoes yn eiddo iddo trwy ffydd, heb enwaediad. O achos hyn, y mae yn dad i bawb sy'n meddu ar ffydd, heb enwaediad, a chyfiawnder felly yn cael ei gyfrif iddynt. Y mae yn dad hefyd i'r rhai enwaededig sydd nid yn unig yn enwaededig ond hefyd yn dilyn camre'r ffydd oedd yn eiddo i Abraham ein tad cyn enwaedu arno' (Rhufeiniaid 4:9–12).

Nid rhywbeth oedd yn arwain at ffydd oedd yr enwaediad felly, ond, yn achos Abraham, rhywbeth oedd yn arwydd o'i ffydd. O ran y gorchymyn i enwaedu'r plant a'r 'teulu' estynedig, mae yna wahaniaeth amlwg. Yn achos y rhain, arwydd o berthyn i'r bobl sydd wedi ymddiried yw'r enwaediad, arwydd sy'n edrych ymlaen at y 'gwir enwaediad': 'Nid Iddew mo'r Iddew sydd yn y golwg. Nid enwaediad chwaith mo'r enwaediad sydd yn y golwg yn y cnawd. Y gwir Iddew yw'r Iddew cuddiedig, a'r gwir enwaediad yw enwaediad y galon, peth ysbrydol, nid llythrennol. Dyma'r un sy'n cael clod, nid gan bobl eraill, ond gan Dduw' (Rhufeiniaid 2:28–9).

Yma, mae Paul yn adleisio'r hyn yr oedd Duw wedi'i ddysgu i'w bobl drwy Moses a'r Proffwydi, e.e. 'Bydd yr ARGLWYDD dy Dduw yn enwaedu dy galon, a chalonnau dy ddisgynyddion, er mwyn iti garu yr ARGLWYDD dy Dduw â'th holl galon ac â'th holl enaid, fely byddi fyw' (Deuteronomium 30:6) ac 'Ymenwaedwch i'r ARGLWYDD, symudwch flaengroen eich calon, bobl Jwda a thrigolion Jerwsalem' (Jeremeia 4:4). Mae'n amlwg yma nad oedd yr arwydd yn gwarantu y byddai hyn yn digwydd, oherwydd, yn adnod 23, fe glywn: 'Yna cymerodd Abraham ei fab Ismael' heb sôn am bawb arall oedd yn 'eiddo iddo'. Beth bynnag am y pawb arall, rydym yn gwybod bod Duw eisoes wedi dweud mai drwy Isaac y byddai'n sefydlu y llinach cyfamodol (adn. 21).

Tra mae enwaediad felly'n arwydd angenrheidiol ac yn arwydd i bob bachgen o fewn y 'teulu', eto rhaid deall nad oedd yn rhyw fath o weithred oedd yn newid rhywun yn y galon. Efallai mai Paul eto sy'n dod â ni agosaf at ddeall dirgelwch gras y nefoedd pan mae'n dweud am y Duw sy'n gosod rhai ar wahân, a braint hynny: 'Oherwydd

y mae'r gŵr di-gred wedi ei gysegru trwy ei wraig, a'r wraig ddi-gred wedi ei chysegru trwy ei gŵr o Gristion. Onid e, byddai eich plant yn halogedig. Ond fel y mae, y maent yn sanctaidd' (1 Corinthiaid 7:14).

Rwy'n meddwl bod yr adnodau hefyd yn pwysleisio dau beth arall.

Yn gyntaf, mae'r adnodau'n milwrio yn erbyn yr unigolyddiaeth sydd mor greiddiol i'n dealltwriaeth o fywyd bellach, ond sy'n ddieithr i bobl y Beibl. Er mai galw unigolion i berthynas ag Ef y mae Duw, eto, mae penderfyniadau unigolion yn cael effaith ar y teulu, ac yn cael eu gwneud o fewn cyd-destun y teulu. Fe welwch fod pawb, bron, yn y Beibl yn cael eu diffinio mewn perthynas â phwy yr oeddent yn perthyn iddynt, i'r lle neu'r llwyth. Mae hyn hyd yn oed yn wir wrth gyflwyno Iesu ar ddechrau'r Efengylau.

Yn ail, gall teulu fod yn berthnasau biolegol a phobl eraill: 'Y diwrnod hwnnw enwaedwyd Abraham a'i fab Ismael; ac enwaedwyd gydag ef holl ddynion ei dŷ, y rhai a anwyd i'r teulu a phob dieithryn a brynwyd ag arian (adn. 26–7). Fel yr addawyd i Abraham y byddai 'cenhedloedd y ddaear yn cael eu bendithio', felly hefyd mae'r Apostolion yn gweld: 'Ac y mae Duw, sy'n adnabod calonnau, wedi dwyn tystiolaeth iddynt trwy roi iddynt hwy yr Ysbryd Glân yr un fath ag i ninnau' (Actau 15:8). Gan fod yr Iesu wedi ei dorri, 'o dir y rhai byw, a'i daro am drosedd fy mhobl' (Eseia 53:8), gall pobl o bob cenedl berthyn i'r teulu hwn, oherwydd: 'enwaedwyd arnoch ag enwaediad nad yw o waith llaw, ond yn hytrach o ddiosg y corff cnawdol; hwn yw enwaediad Crist' (Colosiaid 2:11), yr un gafodd ei dorri yn y cyfamod er ein mwyn ni.

1. Gan feddwl am y cwestiwn ar ddiwedd y paragraff cyntaf, beth sy'n achosi fwyaf o drafodaeth yn ein heglwysi heddiw?
2. Pa mor bwysig yw cael arwyddion gweledol a chorfforol o bethau sy'n realiti ysbrydol?
3. O ystyried yr hen obsesiwn Cymreig o fynnu cael gwybod pwy ydym yn perthyn iddyn nhw – a welwn ni lai o bwyslais ar unigolyddiaeth a mwy ar y teulu cyfunol yn ein heglwysi?

S4C

Dechrau Canu, Dechrau Canmol
Sul, 14 Mai, am 7.30yp

Wythnos Ymwybyddiaeth Iechyd Meddwl
Y cerddor Eilir Owen Griffiths sy'n agor ei galon am ei frwydr gydag iselder mewn cyfweiliad teimladwy gyda Lisa Gwilym

radio cymru

Caniadaeth y Cysegr

Sul, 14 Mai, am 7:30yb a 4:30yp

Elen Ifan yn trafod emynwyr sydd wedi cyfrannu cyfieithiadau a gweithiau gwreiddiol i'n traddodiad emynyddol

Sul, 14 Mai, am 12:00yp

Oedfa dan arweiniad Staff Cymorth Cristnogol

I weld y cyhoeddiad digidol Cenn@d yn llawn, dilynwch y ddolen hon: www.cennad.cymru

(Cyhoeddir Cenn@d ar ran Undeb Bedyddwyr Cymru ac Eglwys Bresbyteriaid Cymru, a rhennir tudalennau cydenwadol y cyhoeddiad ag Undeb yr Annibynwyr Cymraeg)

SYNOD WANWYN CHWAER EGLWYS

Dyma ail ran adroddiad y Parchg Ddr Noel Davies o Synod yr Eglwys Unedig Ddiwygiedig.

Creu mannau tawel


Agwedd arall o'r drafodaeth y credai Beti-Wyn James a minnau allai fod o fudd i ni fel Annibynwyr oedd adroddiad ar greu mannau tawel mewn capeli ac eglwysi. Mae addoliad yn medru bod yn swmlyd iawn ar brydiau, yn arbennig os oes gennym organ gyfoethog, a chynulleidfa weddol

niferus. I rai unigolion, mae bod ymhlith nifer o bobl, nad ydynt efallai yn eu hadnabod yn dda, a bod ynghanol swm, yn medru bod yn brofiad poenus. Mae siarad, a geiriau di-stop yn medru bod yn heriol i eraill. Ac eto maent yn awyddus i fynychu addoliad. Sut mae creu lle – yng nghefn y capel, yn y cyntedd, mewn ystafell fach ar wahân – lle gallant fod yn dawel wrthynt eu hunain neu gyda ffrind neu aelod o'r teulu, ond lle gallant ddal i deimlo eu bod yn rhannu yn yr addoliad drwy

wneud pethau sy'n addas i'w cyflwr a'u hawydd a'u doniau. Ychwanegodd Beti-Wyn: 'Un peth yr oeddwn yn cynhesu ato oedd y syniad o ddarparu pethau ymarferol i gynorthwyo'r rhai sydd yn ei chael hi'n anodd canolbwyntio wrth wrando; h.y. rhai sy'n cael defnyddio eu dwylo i liwio neu i weu neu i ddefnyddio *fidgits* yn help i wrando ar yr oedfa. Mae cymaint o bobl (plant, ieuenticid ac oedolion) yn dioddef o gyflyrau gwahanol – ac yn eu plith ADHD – ac yn teimlo hi'n haws gwrandao wrth gadw eu dwylo yn brysur. Falle nad yw hyn yn gwneud sens i'r person cyffredin ond mae'n gwneud pob sens i lawer! Rwy wedi gweld darpariaeth fel hyn mewn eglwysi dramor lle mae ganddynt flwch o bethau yn y cyntedd y gall addolwyr afael ynddynt heb unrhyw ffws a'u defnyddio yn ystod yr oedfa a'u gollwng 'nôl yn y blwch ar y ffordd allan o'r oedfa. Mae hyn ar wahân i greu mannau tawel ond yn dod o dan yr un pennawd o ddarparu ar gyfer anghenion pawb sy'n dod i addoli.

Synod olaf Simon Walkling

Hon oedd Synod olaf Simon Walkling fel Llywydd (*Moderator*) Synod Cymru. Bu yn y weinidogaeth nodedig, allweddol hon am ddeng mlynedd. Ond mae bellach wedi derbyn galwad unfrydol Eglwys Ddiwygiedig Unedig Christ Well, Trefansel, Abertawe, i fod yn weinidog i Iesu Grist yn eu plith. Bydd hefyd yn gwasanaethu eglwysi eraill yn Rhanbarth Abertawe a Llanelli o'r E.Dd.U. Caiff ei sefydlu ar 2 Medi ac y mae Christ Well ac eglwysi'r rhanbarth yn edrych ymlaen yn fawr at ei groesawu. Rhoddodd wasanaeth arbennig iawn i'r Synod ac i'r eglwysi a'r enwadau yng Nghymru yn gyffredinol drwy Cytûn a Chyngor yr Eglwysi Rhyddion. Diolchwn iddo am ei wasanaeth a dymunwn fendith Duw ar ei weinidogaeth yn Abertawe.



Alun Charles

[Allan o Papur Priordy, Rhifyn 366, Mai 2023]



**The United Reformed Church
National Synod of Wales**

**Yr Eglwys Ddiwygiedig Unedig
Synod Cenedlaethol Cymru**

Dydd Iau Dyrchafael – parhad

Eglwys i ddathlu o flwyddyn i flwyddyn esgyniad Iesu i'r nefoedd, Mae'n fore cynnar, yn fore disgwylgar, a byd natur fel pe bai wedi'i drawsffurfio i adlewyrchu'r ymdeimlad o ddefosiwn y mae'r dydd hwn a'i arwyddocâd yn ei hawlio. Fel yr awgryma'r pennill olaf, mae'r gweddnewidiad boreol hwn o fewn cyrraedd pob un ohonom – beth bynnag yw ein hynt a'n helynt – 'sy'n barod i ymdrafferthu er mwyn ymglywed â'i rin.'

Beth sydd ymlaen fore o Fai ar y bronnydd?
Edrychwch arnynt, ar aur y banadl a'r euron
A'r wenwisg loyw ar ysgwyddau'r ddraenen
Ac emrallt astud y gwellt a'r lloi llonydd;

Gwelwch ganhwylbren y gastanwydden yn olau,
Y perthi'n penlinio a'r lleian fedwen fud,
Deunod y gog dros ust llathraid y ffrwd
A'r rhith tarth yn gwyro o thuser y dolau:

Dowch allan, ddynion, o'r tai cyngor cyn
Gwasgar y cwning, dowch gyda'r wenci i weled
Codi o'r ddaear afrlladen ddifrycheulyd A'r Tad yn cusanu'r Mab yn y gwlith gwyn.

Barn Annibynnol

Beth yw'ch atgofion chi o'r gwasanaeth boreol yn yr ysgol? Rhaid cyfaddef nad yw fy rhai i'n arbennig o ffafriol – ambell un yn llewygu, merched yn cicio cefn pen-glin yr un oedd o'u blaen er mwyn i honno gael row am fod yn aflonydd, rhywun yn gollwng *stink bomb* ... a hynny mewn ysgol ramadeg yn y Gymru wledig hanner canrif yn ôl! Wedi dweud hynny, wrth glywed ambell emyn dôn dw i'n dal i gofio'r geiriau Saesneg er na chlywais i'r emyn ers dyddiau'r *assembly* ac mae gen i gof o Pete Creigle'n darllen ei ddiweddariad o ddameg y Mab Afradlon o'r geiriau, 'A dygwch y llo pasgedig, a lledwch ef; a bwydawn, a byddwn lawen,' wedi'u disodli gan, 'Ac awn ni i gyd i'r Lunchbox i ginio.' Sef y lle i fynd yn Llandysul ar y pryd!



Cwricwlwm

Mewn dyddiau pan fo 'Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg' wrthi'n cael ei gyflwyno yn lle 'Addysg Grefyddol' yn y Cwricwlwm i Gymru, mae'n ymddangos yn rhyfedd fod y rhan fwyaf o ysgolion Cymru'n dal yn gorfod darparu addoli ar y cyd bob dydd. Mae'r Deddf Diwygio Addysg 1988 yn nodi y dylai'r rhan fwyaf o weithredoedd addoli ar y cyd fod o natur Gristnogol fras yn gyfan gwbl neu'n bennaf. Nid yw'r Ddeddf yn diffinio 'addoli' ond yn ôl arweiniad i ysgolion, 'dylai fod yn ymwneud â pharchu neu fawrygu bod neu bŵer dwyfol.'

Deuliaeth

Mae/bydd gwersi Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg yn orfodol i bob disgybl 3-16 oed. Yn ôl y Cwricwlwm, rhaid i'r gwersi adlewyrchu'r ffaith bod traddodiadau crefyddol yng Nghymru yn bennaf yn rhai Cristnogol ond gan ystyried dysgeidiaeth ac arferion y prif grefyddau eraill a gynrychiolir yng

Nghymru. Rhaid hefyd adlewyrchu'r ffaith bod nifer o argyhoeddiadau anghrefyddol gan bobl yng Nghymru.

Rhaid darparu'r gwersi mewn ffordd wrthrychol a beirniadol. Rhaid i'r athrawon ddefnyddio dull diduedd nad yw'n annog plant na'i gwneud yn ofynnol iddynt fod yn grefyddol neu'n anghrefyddol nac i dderbyn safbwynt penodol.

Mae gorfodi addoli ar y cyd ar ysgolion fel pe bai'n mynd yn groes i hyn.

Gorfodaeth

Mewn cyfnod pan oedd mwyafrif pobl Cymru'n cyfrif eu hunain yn Gristnogion, mewn enw o leiaf, efallai bod y syniad o addoliad gorfodol yn ymddangos yn naturiol. Erbyn hyn, yn ôl Cyfrifiad 2021, dim ond 43.6% o boblogaeth Cymru oedd yn eu galw'u hunain yn Gristnogion ac mae'r ganran sy'n cymryd rhan mewn gweithgarwch

Cristnogol gryn dipyn yn is na hynny.

Ond hyd yn oed pe bai mwyafrif mawr yn Gristnogion o argyhoeddiad, tybed a yw addoliad gorfodol yn briodol? Mae'r geiriau 'addoliad' a 'gorfodol' fel pe baent yn gwrth-ddweud ei gilydd. Onid hanfod addoliad yw ei fod yn wirfoddol?

Er mwyn addoli, mae angen credu mewn 'bod neu bŵer dwyfol' sy'n wir, yn dda, ac yn dragwyddol. Mae credu yn Nuw yn newid eich golwg ar fywyd a'ch

ffordd o fyw. Mae gorfodi addoliad ar griw sydd, ar y gorau, yn ddifater am y profiad yn dibrisio'r addoliad ac yn cadarnhau'r difaterwch at Gristnogaeth yn ein cymdeithas.



Canllawiau Cwricwlwm i Gymru



Dull amgen

Yn ôl rhai, mae addoli ar y cyd yn gyfle i ddod â disgyblion at ei gilydd i ymdawelu a myfyrio ynghanol eu prysurdeb. Ond gellir gwneud hynny heb addoli. Gellir annog disgyblion i ystyried materion ysbrydol a moesol, meithrin ysbryd cymunedol, ac atgyfnerthu agweddau cadarnhaol heb addoli 'pŵer dwyfol'. Byddai modd i Gristnogion, ynghyd â phobl o grefyddau eraill a phobl ddigrefydd, arwain y gwasanaethau o hyd a gellid cynnwys darnau o'r Beibl, cerddoriaeth Gristnogol a myfyrdodau Cristnogol heb yr elfen o addoli.

Mae'n rhaid gofyn pa mor effeithiol yw addoliad ar y cyd, beth bynnag. Efallai bod rhai o'r 43.6% y soniwyd amdanynt uchod yn eu cyfrif eu hunain yn Gristnogion oherwydd eu profiad yn yr ysgol ond tybed faint o bobl sydd wedi ymuno yng ngweithgarwch Cristnogol eu hardal am eu bod wedi'u hargyhoeddi gan addoliad ar y cyd yn yr ysgol?

Efallai y byddai gollwng yr elfen o addoliad ac ymdrechu i gynnal gwasanaethau cynhwysol, perthnasol, diddorol yn golygu bod llai o bobl yn cael eu temtio i ollwng *stink bombs* yn y gwasanaeth!

Siân Roberts

(Nid yw cynnwys y Barn Annibynnol o reidrydd yn adlewyrchu safbwynt Undeb yr Annibynnwyr na'r tîm golygyddol.)



Penderfyniadau 2023

Cyfarfodydd Blynnyddol yr Undeb
Cyfundeb Dwyrain Dinbych a Fflint,
28–30 Mehefin.

Dyma'r amser i gyflwyno
penderfyniadau i'w trafod gan y
Gynhadledd.

Dylai rhybudd o bob penderfyniad,
wedi ei lofnodi gan y cynigydd a'r
eilydd, gyrraedd yr Ysgrifennydd
Cyffredinol erbyn dydd Llun, **15 Mai**
fan bellaf.

Erthyglau, llythyrau at y Prif Olygydd:**Y Parchg Ddr Alun Tudur**39 Dorchester Avenue, Pen-y-lan,
Caerdydd, CF23 9BS**Ffôn: 02920 490582****E-bost: aluntudur@btinternet.com****Golygyddion**Y Parchg Iwan Llewelyn Jones
Fronheulog, 12 Tan-y-Foel,
Borth-y-gest, Porthmadog, Gwynedd,
LL49 9UE
Ffôn: 01766 513138
E-bost: IwanLlew@aol.comAlun Lenny
Porth Angel, 26 Teras Picton
Caerfyrddin, Sir Gâr, SA31 3BX
Ffôn: 01267 232577 /
0781 751 9039
E-bost: alunlenny@hotmail.co.uk**Archebion a thaliadau i'r Llyfrfa:**Tŷ John Penri, 5 Axis Court, Parc
Busnes Glanyrafon, Bro Abertawe
ABERTAWE SA7 0AJ
Ffôn: 01792 795888
E-bost: undeb@annibynwyr.cymru**Dalier Sylw!**Cyhoeddir yr Adran Gydenwadol gan
Bwyllgor Llywio'r Adran
Gydenwadol ac nid gan Undeb yr
Annibynwyr Cymraeg. Nid oes a
wnelo Golygyddion Y Tyst ddim â
chynnwys yr Adran Gydenwadol.

Newyddion Libanus y Pwll Gŵyl Ddewi a chroeso i aelodau newydd

Daeth dros ugain o deulu Libanus y Pwll ynghyd i ddatlu gŵyl ein nawddsant fore Sul, 5 Mawrth. Roedd y capel wedi'i addurno'n brydferth a'r cennin Pedr yn harddu'r adeilad ar fore braf o wanwyn.

Cafwyd oedfa fendithiol iawn yng ngofal yr aelodau ac roedd yn bleser gwrandao ar nifer o aelodau yn cyfrannu tuag at yr oedfa a baratowyd gan Gwenda Davies. Roedd gweld y plant – Nel a Nansi Jones a Ffion a Mari Thomas yn darllen a chanu yn codi'r galon.

Wedi'r oedfa, trefnwyd te a theisennau yn y festri. Diolch arbennig i Anne Hussey a Gwenda Davies am addurno'r adeilad a pharatoi'r lluniaeth. Bore hyfryd iawn.

**Aelodau newydd**

Hefyd, ddiwedd y llynedd, derbyniwyd dau aelod newydd sef Beryl a John Griffiths gan y Parchedig Meirion Evans. Bu'r ddau'n mynychu'r gwasanaethau yn hynod o ffyddlon am rai blynyddoedd a braf oedd cael eu croesawu yn aelodau cyflawn yn eglwys Libanus. Wedi'r oedfa mwynhawyd cwpanaid o de a sgwrs yn y festri.

Coleg Ivato, Madagascar: Cynllun amgylcheddol ardderchog

Fe gofiwch, mae'n siŵr, i ni fod yn codi arian ar gyfer pedwar prosiect gwahanol yn ystod Apêl Madagascar. Un o'r prosiectau hynny oedd cynllun addysg amgylcheddol i ddarpar weinidogion yng Ngholeg diwinyddol Ivato ar Ynys Madagascar. Y syniad oedd bod pob darpar weinidog yn dysgu sut oedd tyfu ffrwythau a llysiau ac yn cael sgiliau garddio ac amaethu cyn mynd allan i'w heglwysi. Roeddent hefyd yn cael eginblanhigion i fynd gyda nhw er mwyn helpu rhannu gwybodaeth a dysgu eu cynulleidfaoedd sut i fyw yn fwy hunangynhaliol.

Aeth peth amser heibio ers iddyn nhw dderbyn yr arian gan Undeb yr Annibynwyr Cymraeg. Mae eu llafur caled eisoes yn dwyn ffrwyth ac y mae llawer o lysiau a ffrwythau bellach yn tyfu. Y mae un rhan o'r rhandir yn berllan sy'n cynhyrchu, pomgranadau, mangoau ac eirin gwlanog. Er mwyn dyfrio'r ardd y mae tŵr dŵr wedi ei adeiladu gerllaw. Caiff dŵr ei bwmpio o ffynnon. Rhaid oedd gorchuddio'r ffynnon a'r pwmp gyda gorchudd am eu bod nhw wedi colli chwe phwmp i ladron yn ystod y flwyddyn a aeth heibio. Y mae tlodi affwysol y wlad yn golygu bod lladrata wedi dod yn broblem enfawr yno.

Pwerwyd y golau ar ffordd osgoi newydd gan baneli solar a roddwyd ar ben polion uchel iawn ond cafodd y rhan fwyaf o'r paneli solar eu dwyn. Mae'r polion lamp diweddaraf wedi'u gorchuddio gyda weiren bigog mewn ymgais i atal y lladron. Mae un neu ddau o'r paneli wedi'u dwyn er gwaethaf y weiren ond mae'r rhan fwyaf yn dal i fod yn eu lle.

